

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda,

Practis Deintyddol Achddu
Villa

12 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.

Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Achddu Villa yn 18 Heol Stepney, Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin, SA16 0BH, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 12 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Rhoddir manylion am unrhyw ganfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Achddu Villa yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Achddu Villa yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynwys tri deintydd (un ohonynt dan hyfforddiant), un hylenydd, pedair nyrs, un rheolwr practis, ac un derbynydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diagnosis ac atal
- Gwaith adferol
- Coronau a phontydd
- Triniaethau cosmetaidd
- Amrywiaeth o driniaethau preifat

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol Achddu Villa yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Gwelsom fod gofal a thriniaeth, ar y cyfan, yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd ddiogel i gleifion. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd y gellid eu gwella. Gwelsom fod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'i threfnu'n dda yn ôl pob golwg. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon foddhaol. Trafodwyd y meysydd oedd angen sylw ar unwaith, h.y. yr ystafell ddadheintio a'r gwiriadau datgelu a gwahardd, ar ddiwrnod yr arolygiad, a chyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith a oedd yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel i gleifion. Er hynny, roedd angen personoli'r rhain i'r practis a'u dyddio i sicrhau eu bod yn bodloni deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Er bod angen gwella rhai meysydd, gwelsom fod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd y tîm yn broffesiynol ac yn gydlynol.

Gwelsom fod y practis yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Fodd bynnag, roedd rhai ardaloedd oedd yn edrych yn dreuliedig ac yn flinedig. Nid oedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dyweddod y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddisbarthu holiaduron AGIC er mwyn casglu barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 20 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Gwnaethom siarad â dau glaf hefyd ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd y cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiadur wedi bod yn defnyddio'r practis ers rhwng chwe mis a 30 o flynyddoedd. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn gyson gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion, er i dri ohonynt nodi y bu oediad byr oherwydd bod angen triniaeth frys ar gleifion.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth ardderchog ar bob apwyntiad."

"Gwasanaeth deintyddol rhagorol, bob amser yn gyfeillgar a phroffesiynol. Mae arna'i ofn unrhyw driniaeth ddeintyddol, ond mae pob profiad wedi bod yn gadarnhaol – analgesia ardderchog, ac mae'r tîm bob amser yn amyneddgar a pharod ei gymwynas. Byddwn yn argymhell y practis hwn."

"Mae'r practis yn wych."

"Bodlon iawn. Proffesiynol iawn."

"Gwasanaeth ardderchog; cyngor a chymorth cyfeillgar iawn."

"Mae'r deintydd a'r staff yn groesawgar iawn, yn hawdd mynd atynt, ac yn broffesiynol. Maent yn darparu gwasanaeth ardderchog, ac mae'r driniaeth ddeintyddol o safon uchel. Rwyf i a'm teulu'n hapus iawn ac yn ffodus gyda'r gofal a'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir."

Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a chadarnhawyd bod rhif cyswllt yn cael ei roi ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o hyn yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, gan alluogi'r cleifion i gael eu gweld yn gyflym os bydd angen.

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn y dderbynfa. Nid oes gan y practis wefan ar hyn o bryd.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth hyrwyddo iechyd yn y manau aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu a chodi ymwybyddiaeth o ganser y geg.

Nid oedd gan y practis system i gael barn y cleifion yn rheolaidd a gweithredu arni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu yn ei sgil.

Pan ofynnwyd am wneud cwyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn, er i bawb ychwanegu nad oedd ganddynt reswm dros gwyno. Gwelsom fod y broses gwyno wedi cael ei harddangos ar sgrin deledu, ond mae angen diweddarau'r wybodaeth gyda chyfeiriad cyfredol AGIC a chyfeiriad y cyngor iechyd cymuned. Byddai hefyd yn fuddiol pe bai'r wybodaeth i'w gweld am gyfnod hirach ar y sgrin er mwyn i'r claf allu ei darllen yn llawn.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd oedd angen eu gwella. Gwelsom fod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'i threfnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon foddhaol. Trafodwyd y meysydd oedd angen sylw ar unwaith, h.y. yr ystafell ddadheintio a'r gwiriadau datgelu a gwahardd, ar ddiwrnod yr arolygiad, a chyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith.

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol y tair ystafell driniaeth yn y practis a gweld eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'i threfnu'n dda yn ôl pob golwg. Roedd yr holl arwynebau'n rhydd rhag annibendod er mwyn caniatáu glanhau effeithiol. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom lyfr presgripsiwn yn cael ei storio mewn drôr heb ei chloi mewn ystafell driniaeth nad oedd yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid storio llyfrau presgripsiwn yn ddiogel pan nad yw'r deintydd yn yr ystafell driniaeth.

Dadheintio offer

Nid oedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, ac nid oedd y coridor rhwng dau ddrws oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd yn addas o ran maint ac awyru ac nid oedd yn bodloni safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05). Dangosodd y prif ddeintydd y cynlluniau i ni ar gyfer estyniad a fyddai'n cynnwys ystafell ddadheintio wedi'i neilltuo, ond roedd y cynlluniau wedi cael eu llunio ddwy flynedd yn ôl ac nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi digwydd yn eu sgil. Awgrymodd trafodaeth bellach â'r prif ddeintydd bod cynllun hefyd ar y gweill i newid ystafell bresennol sy'n cael ei defnyddio ar gyfer storio/fel cegin ar hyn o bryd, ac y byddai hynny'n fwy cyraeddadwy yn y tymor byr. Anfonodd AGIC llythyr sicrwydd ar unwaith ar 13 Mai 2015 yn gofyn am sicrwydd, gydag amserlenni, y byddai'r ardal ddadheintio'n cael sylw yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae'r ymateb gan y practis yn rhoi amserlen o chwech i naw mis ar gyfer ailwampio'r ystafell a dwy flynedd ar

gyfer yr adeilad newydd. Mae AGIC wedi gofyn am ymateb erbyn 31 Gorffennaf 2015 gyda phenderfyniad terfynol ynghylch pa welliant mae'r practis yn bwriadu ei wneud.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Gwelsom dystiolaeth o'r trefniadau glanhau dyddiol sy'n cael eu cynnal gan y nyrsys, ond er eu bod yn cael eu cyflawni, nid oeddent yn cael eu cofnodi'n drwyadl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i drefniadau glanhau dyddiol a gwiriadau offer dyddiol gael eu cofnodi'n glir.

Gwelsom dystiolaeth bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadheintio a rheoli heintiau. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, ond nid oedd dyddiad arno na chasgliadau, na chynlluniau gwella er mwyn mynd i'r afael â'r materion oedd wedi dod i'r amlwg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheolaidd o'i brosesau dadheintio a dangos cynnydd mewn perthynas â chynllun ar gyfer gwella.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

Offer radiograffig (pelydr-X)

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol cymwys wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol mewn ymbelydredd ïoneiddio. Fodd bynnag, gwelsom anghysondebau mewn perthynas â'r arfer clinigol o gofnodi radiograffau (pelydrau-X). Gwnaethom nodi'r materion canlynol:

- Nid oes cyfiawnhad dros wneud y sganiau pelydr-X bob amser
- Nid oes gwerthusiad clinigol digonol o'r sganiau pelydr-X bob amser
- Nid yw ansawdd y pelydrau-X yn cael ei raddio'n ddigonol bob amser

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i bob deintydd gofnodi'n glir y rheswm dros gynnal archwiliadau pelydr-X, a dylid gwerthuso pob pelydr-X yn glinigol a'i raddio.

Yn dilyn craffu ar y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys dogfennaeth a chanllawiau yn ymwneud â defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, gwelsom fod angen adolygu a diweddarau'r wybodaeth oedd yn cael ei chadw ynddi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyfredol.

Gwelsom enghreifftiau o archwiliadau pelydr-X, ond nid oedd digon o fanylder ynddynt ac nid oeddent yn ddigonol i ddangos bod arferion yn gwella.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau trwyadl o belydrau-X a dangos cynnydd mewn perthynas â chynllun gwella.

Meddyginiaeth ac offer meddygol mewn argyfwng

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar waith i sicrhau bod yr offer dadebru a'r feddyginiaeth at ddibenion argyfwng yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystysgrifau oedd yn dangos tystiolaeth bod y staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, ond nid oedd swyddog cymorth cyntaf penodedig oedd wedi ymgymryd â'r cwrs cydnabyddedig o fewn y tair blynedd diwethaf fel sy'n ofynnol. Gwnaethom hefyd drafod buddiannau chwistrellydd awtomatig i blant sydd wedi'i fesur ymlaen llaw â'r prif ddeintydd (i'w ddefnyddio mewn achos o ymateb alergaidd difrifol).

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis benodi swyddog cymorth cyntaf sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant bob tair blynedd cydnabyddedig.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod angen gwella'r dull o gadw cofnodion yn y meysydd canlynol:

- Mae angen cofnodi cydsyniad cleifion i driniaeth
- Mae angen cofnodi cynlluniau triniaeth a'u rhoi i'r cleifion
- Mae angen cofnodi trafodaethau ynglŷn â thriniaethau

- Mae angen cofnodi rhifau swp a dyddiadau dod i ben anesthetig lleol
- Mae angen cofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid archwilio cofnodion cleifion a dangos cynnydd mewn perthynas â chynllun ar gyfer gwella.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith a oedd yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel i gleifion. Er hynny, roedd angen personoli'r rhain i'r practis a'u dyddio i sicrhau eu bod yn bodloni deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Er bod angen gwella rhai meysydd, gwelsom fod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd y tîm yn gydlynol ac yn broffesiynol iawn.

Un o'r prif ddeintyddion yw perchennog annibynnol Practis Deintyddol Achddu Villa. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n effeithlon a bod staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swyddi, bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis. Yn ystod ein trafodaethau â'r deintyddion, daeth i'r amlwg bod ganddynt lefel uchel o ofal a chydymdeimlad tuag at eu cleifion a'u bod yn awyddus bob amser i weithio er eu budd gorau.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, ac roedd system addas ar gael i sicrhau bod y tystysgrifau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Er hynny, mae angen i'r bolisiâu a gweithdrefnau fod yn unigryw i'r practis, ac mae angen cofnodi dyddiadau adolygu. Mae'n angen i'r practis hefyd ddatblygu polisi chwythu'r chwiban a pholisi preifatrwydd ac urddas. Byddai hyn yn sicrhau bod ffyrdd cytûn o weithio yn lleol, a gallai'r practis ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu'r polisiâu a drafodwyd, eu gwneud yn unigryw i'r practis, a dangos dyddiad arnynt.

Fe'n hysbyswyd gan y staff nad oedd unrhyw gyfarfodydd staff ffurfiol a oedd yn cael eu cofnodi. Mae angen cynnal y cyfarfodydd hyn, ac mae angen cofnodion ohonynt sy'n cynnwys manylion am drafodaethau a chamau gweithredu a oedd yn codi yn eu sgil.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis drefnu cyfarfodydd staff ffurfiol yn rheolaidd a'u cofnodi.

Nid oedd dim arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal ar y pryd i sicrhau cymhwysedd y staff ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddiant neu anghenion

datblygu. Roedd trafodaethau â rheolwr y practis yn awgrymu bod hwn yn faes i'w ddatblygu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddatblygu system ar gyfer arfarniadau staff blynyddol i sicrhau cymhwysedd y staff a sicrhau bod ganddynt gefnogaeth ffurfiol.

Mae'r practis yn bractis hyfforddi sefydledig ar gyfer deintyddion, ac ar hyn o bryd roedd yno un deintydd yn dilyn blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol. Fodd bynnag, nid oedd rhaglen ymsefydlu ar gael i staff newydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu rhaglen ymsefydlu ar gyfer staff newydd.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis. Prin iawn oedd y dystiolaeth a welsom o unrhyw archwiliadau ystyrlon. Golygai hyn nad oedd gan y practis systemau addas ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir. Gwnaethom drafod archwiliad gan gymheiriaid gyda'r prif ddeintydd, a dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i ddatblygu archwilio clinigol gan gymheiriaid gyda phractis cyfagos. Cafwyd cadarnhad o hyn gan y practis cyfagos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system reolaidd o archwiliadau er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal mae'n ei ddarparu.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth am y staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gan yr holl staff gytundebau cyflog ar waith. Gwnaethom drafod yr angen i ddiweddarau'r rhain gyda rheolwr y practis, er mwyn iddynt adlewyrchu newid enw'r practis.

Gwelsom enghreifftiau o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, ac roedd hyn yn dangos bod gan y staff fynediad at gyfleoedd hyfforddiant perthnasol i'w rôl. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael eu sicrhau eu bod yn cael eu trin gan staff â sgiliau priodol a chyfredol sy'n hyderus ac yn gyfarwydd â'u gweithle. Fodd bynnag, roedd y ffeiliau hyn yn anodd eu dilyn ac nid oedd system ffeilio yn ôl pob golwg. Gwelsom hefyd fod tystysgrifau presenoldeb yn gymysg â ffeiliau staff anghywir. Byddai'n fuddiol pe bai'r practis yn edrych ar y rhain eto ac yn eu storio mewn modd mwy effeithiol.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan bob deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Anfonwyd llythyr sicrwydd ar unwaith at y practis ar 13 Mai 2015 yn gofyn am gadarnhad bod cais wedi ei wneud am y rhain. Derbyniodd AGIC gadarnhad ar 3 Mehefin 2015.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd trefniadau addas ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol hefyd ar waith drwy'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cael brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon ffurfiol (cwynion), er nad oedd y rhain o fewn yr amserlenni a nodir yn y ddogfen "Gweithio i Wella", ac nid oedd pryderon ar lafar neu bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi ar y pryd. Nid yw hyn yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth a oedd yn ymwneud â phryderon yn cael ei chadw'n gyda'i gilydd yn ganolog mewn ffeil bapur, ar wahân i gofnodion cleifion. Nid oedd y polisi'n cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriad AGIC fod ar gael hefyd i gleifion preifat. Gwnaethom drafod hefyd defnyddio sgrin deledu i arddangos yr wybodaeth, ac er bod hyn yn dderbyniol, roedd angen i'r wybodaeth fod yn weladwy am gyfnodau hirach er mwyn galluogi'r cleifion i ddarllen yr wybodaeth yn gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni a chofnodi pryderon ar lafar neu bryderon anffurfiol yn unol â chanllawiau 2011 "Gweithio i Wella".⁴

Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfeiriad AGIC ar gael ar bolisi cwyno cleifion preifat.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiaid â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

⁴"Gweithio i Wella" yw'r rheoliadau sy'n ceisio symleiddio'r broses o ymdrin â phryderon am y GIG.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Nid yw mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol tref Porth Tywyn. Mae tair ystafell driniaeth yn y practis, dwy ar y llawr daear ac un ar y llawr cyntaf. Fodd bynnag, mae grisiau'n arwain at ystafelloedd triniaeth y llawr daear ac felly mae mynediad yn gyfyngedig i rai pobl. Mae gan y practis ardal neilltuedig i gleifion barcio eu ceir o flaen y practis.

Nid yw mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn oherwydd y grisiau a lled y drysau.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu allan, ond roedd ardaloedd y tu fewn oedd yn edrych yn dreuliedig. Mae angen carpedi newydd, ac roedd llwydni i'w weld yn yr ardal storio. Fodd bynnag, roedd y practis yn lân, yn daclus, ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddi draw. Roedd yr ystafell haul yn amgylchedd dymunol iawn i gleifion aros am driniaeth ynddo. Roedd y dderbynfa a'r manau aros o faint priodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Nid oedd gan y practis doiledau ar gyfer cleifion. Roedd un toiled ar y llawr cyntaf i staff, ac roedd yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i reoli heintiau.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis ac arno oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion yn cael eu harddangos y tu allan. Fodd bynnag, mae angen i restr o'r holl staff, yn ogystal â'u swyddogaethau a'u cofrestradau gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, fod yn weladwy y tu fewn i'r adeilad. Roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos hefyd yn y dderbynfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i restr o'r holl staff, yn ogystal â'u swyddogaethau a'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol, fod yn weladwy y tu fewn i'r practis.

Yn unol â rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod mesurau a systemau ar waith

i amddiffyn staff a chleifion mewn tân. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod.

Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw ar weinydd allanol bob dydd. Golygai hyn fod y practis wedi cymryd mesurau i ddiogelu a gwarchod cleifion a'u gwybodaeth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r meysydd a nodwyd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Achddu Villa yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, fe gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

Practis: **Practis Deintyddol Achddu Villa**

Dyddiad yr Arolygiad: **12 Mai 2015**

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
Tudalen 7	Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu yn ei sgil. [Safonau lechyd a Gofal 6.3 a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1]			
Cyflenwi Safonau lechyd a Gofal				
Tudalen 8	Rhaid storio llyfrau presgripsiwn yn ddiogel pan nad yw'r deintydd yn yr ystafell driniaeth. [Safonau lechyd a Gofal 2.6]			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 9	<p>Mae angen i drefniadau glanhau dyddiol a gwiriadau offer dyddiol gael eu cofnodi'n glir.</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 2.4]</p>			
Tudalen 9	<p>Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheolaidd o'i brosesau dadheintio a dangos cynnydd mewn perthynas â chynllun ar gyfer gwella.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.4, 3.1, 3.3; WHTM 01-05 2.22]</p>			
Tudalen 9	<p>Rhaid i bob deintydd gofnodi'n glir y rheswm dros gynnal archwiliadau pelydr-X, a dylid gwerthuso pob pelydr-X yn glinigol a'i raddio.</p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 3.5]</p>			
Tudalen 10	<p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyfredol.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000]</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 10	<p>Rhaid i'r practis benodi swyddog cymorth cyntaf sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant bob tair blynedd cydnabyddedig.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3]</p>			
Tudalen 10	<p>Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau trwyadl o belydrau-X a dangos cynnydd mewn perthynas â chynllun gwella.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000]</p>			
Tudalen 11	<p>Dylid archwilio cofnodion cleifion a dangos cynnydd mewn perthynas â chynllun ar gyfer gwella.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14.2]</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Tudalen	Mae angen i'r practis ddatblygu'r polisiau a			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
12	<p>drafodwyd, eu gwneud yn unigryw i'r practis, a dangos dyddiad arnynt.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7]</p>			
Tudalen 12	<p>Mae angen i'r practis drefnu cyfarfodydd staff ffurfiol yn rheolaidd a'u cofnodi.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.4, 6.6]</p>			
Tudalen 13	<p>Rhaid i'r practis ddatblygu system ar gyfer arfarniadau staff blynyddol i sicrhau cymhwysedd y staff a sicrhau bod ganddynt gefnogaeth ffurfiol.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.1.1.]</p>			
Tudalen 14	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni a chofnodi pryderon ar lafar neu bryderon</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	anffurfiol yn unol â chanllawiau 2011 "Gweithio i Wella". ⁵			
Tudalen 14	Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfeiriad AGIC ar gael ar bolisi cwyno cleifion preifat. [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008]			
Ansawdd yr Amgylchedd				
Tudalen 15	Rhaid i restr o'r holl staff, yn ogystal â'u swyddogaethau a'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol, fod yn weladwy y tu fewn i'r practis. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.10]			

Cynrychiolydd y Practis:

⁵"Gweithio i Wella" yw'r rheoliadau sy'n ceisio symleiddio'r broses o ymdrin â phryderon am y GIG.

Enw (llythrennau bras):.....

Teitl:

Dyddiad: